# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 16EG EBRILL, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 8 Ebrill 2021)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Annwen Hughes |
| Peredur Jenkins | Mair Rowlands |
| Dyfrig L. Siencyn | Gethin Glyn Williams |
| Dafydd Meurig | Olaf Cai Larsen |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eric M. Jones | Eryl Jones-Williams |
| Dewi Wyn Roberts | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Alwyn Gruffydd |

## Y Blaid Genedlaethol (1)

Y Cynghorydd Peter Read

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Y Cynghorydd Edgar Owen a'r Cynghorydd Simon Glyn

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19 Mawrth 2021, fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig

## 6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PRIF WEITHREDWR

I dderbyn adroddiadau o'r Ganolfan Asesu a chyfweld ymgeiswyr ar gyfer y swydd.

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 19-3-21**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Anwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric M Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Peter Read, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a Gethin Glyn Williams

**Swyddogion:**

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)
Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd y Cyngor)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11-02-21 fel rhai cywir

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PRIF WEITHREDWR**

Adroddodd y Cadeirydd bod 6 cais wedi ei derbyn am y swydd.

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

**PENDERFYNWYD RHOI DAU YMGEISYDD AR Y RHESTR FER**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd y Prif Weithredwr y byddai cwmni Goodman Thomas yn cynnal canolfan asesu gan ganolbwyntio ar y profion seicometreg a chymwyseddau'r ymgeiswyr. Bydd y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, 3 Aelod Cabinet a Chadeirydd y Pwyllgorau Craffu yn cynnal cyfweliad proffesiynol. Bydd adroddiad ffurfiol o ymatebion yr ymgeiswyr yn cael ei ddarparu gan y ganolfan asesu a'r Prif Weithredwr i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

Trafodwyd chwe cwestiwn a thestun cyflwyniad priodol ar gyfer y cyfweliad.

Cyfweliadau gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i'w cynnal 16 Ebrill 2021

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:00pm